CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor, nos Lun 3 Rhagfyr 2018**

**Presennol:** Cadeirydd: Y Cyng Iwan Davies. Cynghr: Mrs Amanda Edwards, Ken Symmons, Hywel Davies, Mrs Nicky Redmond, S Kings

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyng Mrs Laura Holder.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Dim.

**4. Materion Personol**
None.

**5. Ceisiadau Cynllunio**
*A181073 Bwthyn y Garddwr, Croes-y-llan, Llangoedmor*
Dymchwel ystafell wely bresennol a thŷ gwydr, adeiladu ystafelloedd gwely newydd ar yr ochr a'r cefn ac ailgodi tŷ gwydr yn y cefn gyda gwaith cysylltiedig.
Cefnogwyd y cais gan y Cyngor Cymuned.

*Cynlluniau Lle*
Nodwyd y digwyddiadau sydd i ddod. Byddai'r Clerc yn crynhoi'r wybodaeth yn barod ar gyfer cyfarfod mis Chwefror.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**
Soniodd y CS Clive Davies am y cyfarfod roedd e a'r Cyng G Morgan wedi bod ynddo gyda chynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru. Trafodwyd rhybuddion llifogydd, dirprwyo pwerau ar gyfer cau ffyrdd a chefnogaeth yn yr wythnosau ar ôl llifogydd. Dywedodd nad oedd bwriad mwyach gan CNC i adeiladu dyfais i atal coed yn yr afon. Mynegwyd pryder, er na fyddai nifer o adeiladau yn y pentref byth yn dioddef llifogydd oherwydd yr afon, gan eu bod o fewn yr un cod post byddai'n anodd trefnu yswiriant ar eu cyfer. Nodwyd na fyddai dymchwel yr ynys a / neu'r bont yn effeithio ar ganlyniad llifogydd gan mai'r hafn yn bennaf oedd yn effeithio ar hyn. Nododd, gyda diolch, waith pawb a fu'n gweithio yn codi arian ar gyfer y rheiny yr effeithiwyd arnynt gan y llifogydd, a chanmolodd nhw ar y drefn a oedd wedi'i chytuno i ddosbarthu'r arian. Nododd y CS Clive Davies y cyfarfod gyda Wales and West Housing. Dywedodd fod gan y Gymdeithas raglen Buddiant Cymunedol a allai gynnig cefnogaeth a helpu diogelu'r pentref.

Nododd y CS Clive Davies fod yna rai pryderon yn parhau am y system CLIC yn y Sir, yn anad dim am nad oedd yn bosibl mynd ar ôl adroddiadau/gwaith ar ôl i'r adroddiad gwreiddiol gael ei gyflwyno i adran/contractwyr gan y Sir. Byddai ef yn bersonol yn holi am yr adroddiad cyflymdra wrth y gwaith dŵr, gan ei fod mor llachar fel ei fod yn dallu gyrwyr.

Diolchwyd i'r CS Clive Davies am ei amser, ac yna gadawodd ef y cyfarfod.

**7. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol 5.11.18**
Cynigiodd y Cyng Mrs A Edwards y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng S Kings, a chytunwyd**.**

**8. Materion yn Codi**
Dim.

**9. Cyllid a Gweinyddu**
*Taliadau*

| | Talai | Am | banc | |
|---|---|---|---|---|
| Taliadau Tachwedd | | | | |
| 3.12.18 | HMRC | | 5.00 | |
| | S E Davies | Swyddfa yn y Cartref 25 | 25.00 | |
| | SE Davies | Addasu Cyflog oherwydd codiad | 21.54 | |
| | Cardiac Science | Batri a phadiau ar gyfer y diffib | 330.00 | |
| | Mr E Rees | Golchi'r biniau, bloc toiledau a'r eglwys | 260.00 | |
| | Glasdon UK Ltd. | Bin | 205.31 | |
| | Ysgol Gerdd Ceredigion | Arian grant | 100.00 | |
| | Cyng H Davies | Cadwyn ar gyfer man chwarae | 1.57 | |
| 30.12.18 | S E Davies | Cyflog | 336.36 | AS |

Cynigiwyd: Cyng Mrs A Edwards, eiliwyd gan y Cyng H Davies, cytunwyd yn unfrydol.

*Ymddiswyddiad Mr G Morgan a Mrs Eleri Davies*
Nodwyd ymddiswyddiad y ddau Gynghorydd gyda thristwch. Byddai'r Sir yn cael gwybod am yr ymddiswyddiadau a byddai'r hysbysiadau priodol yn cael eu gosod.
GWEITHREDU: Ysgrifennu at y ddau, a diolch hefyd i Mr G Morgan am y parti ar ôl cynnau'r goleuadau. GAN: Y Clerc

*Grantiau*
Swimming pool
Ar ôl trafodaeth cytunwyd i roi/cyfrannu £200. Cynigiwyd: Y Cyng Mrs A Edwards, eiliwyd gan y Cyng Mrs N Redmond, cytunwyd yn unfrydol.
Os byddai rhagor o wybodaeth yn dod am sefyllfa'r pwll nofio, byddai'r Cyngor yn ystyried grant pellach ym mis Ionawr 2019. Cytunodd pawb fod y pwll yn amwynder lleol pwysig.

Crafts4wellbeing
Nodwyd bod cais wedi'i wneud am ragor o wybodaeth cyn gwneud unrhyw benderfyniad am rodd/cyfraniad.

Wales and West Housing
Buddiant Cymunedol
Roedd y CS Clive Davies wedi rhoi ychydig wybodaeth am y cynllun yn ei adroddiad.
Man Chwarae Glannant
Dywedodd y Clerc, yn y cyfarfod gyda chynrychiolwyr Wales and West Housing, fod cytundeb wedi'i wneud i gymhennu'r ardal. Gellid defnyddio Buddiant Cymunedol i ddarparu gardd gymunedol i'w defnyddio gan holl drigolion Llechryd. Byddai'n rhaid adolygu gyda'r trigolion waith pellach fel gosod cyfarpar chwarae a chynnal a chadw amlach. Gellid edrych ar gost cyfarpar drwy gyfrwng arian grant, ond dywedwyd y byddai'n rhaid i gostau unrhyw gynnal a chadw cynyddol parhaus gael eu talu gan drigolion yr ystâd. Gofynnwyd a ellid gosod bin wrth y gât ar yr A484 gan fod y biniau yn y man chwarae yn aml yn llawn baw cŵn, ac ni fyddai trigolion yn gwacau'r biniau yn yr achos hwnnw..
Roedd y Cyngor Cymuned ychydig yn bryderus y byddai'r costau, er bod yr ardal i'w gweld yn agored i bawb, yn disgyn ar ysgwyddau trigolion yn unig.
GWEITHREDU: Cysylltu â Wales and West Housing am eglurhad am gostau ac ati GAN: Y Clerc

*Cyllideb*
Dywedodd y Clerc nad oedd eto wedi clywed a fyddai'r Cyngor yn cael arian grant ar gyfer arwynebau mannau chwarae. Os byddai hyn yn digwydd gallai effeithio ar y gyllideb.
Nid oedd y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r Contract Glanhau tan 7 Rhagfyr.
Cytunwyd, o gadw'r uchod mewn cof, y byddai'r gyllideb yn cael ei phenderfynu yng nghyfarfod mis Ionawr.
GWEITHREDU: Eitem ar agenda'r gyllideb ar gyfer mis Ionawr GAN: Y Clerc

*Cynllunio ar gyfer Llifogydd/Argyfwng*
Ar ôl trafodaeth cytunwyd y byddai'r Cyngr Mrs A Edwards, Mrs N Redmond ac S Kings yn cyfarfod i drafod cynllun argyfwng cymunedol.
GWEITHREDU: Anfon ymlaen enghreifftiau o gynlluniau a dogfennau cefnogi sydd ar gael GAN: Y Clerc

**10. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*Dyddiad newydd i gerdded*
Cytunwyd i drefnu cerdded llwybrau cyhoeddus yn y flwyddyn newydd.

Nodwyd nad oedd yr arwydd cyflymdra gwallus yn gweithio o hyd. Doedd dim gwaith wedi'i wneud at lwybr troed Glannant.

*Cyflymdra yng Nghroes-y-llan*
Roedd CSC wedi ymateb nad oedd yr amodau ffyrdd yn bodloni'r meini prawf cyfredol ar gyfer cyfyngiad cyflymdra a bod yr arwyddion nesáu yn anaddas. Roedd yr Awdurdod i fod i arolygu terfynau cyflymdra ar ffyrdd y sir yn 2019, a byddai'r rhan hon o'r A484 yn cael ei chynnwys yn yr argolwg. Byddai'r broses arolygu yn defnyddio methodoleg sydd wedi'i chymeradwyo gan gabinet CSC a'i seilio ar ganllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru a meini prawf a ddefnyddir gan Bartneriaeth Lleihau Damweiniau Ffyrdd Cymru. Byddai'n rhaid i'r arolwg gymryd i ystyriaeth y niferoedd cymharol fach o adeiladau sy'n ffinio â'r briffordd A484, ac nad oedd dim cofnodion am unrhyw wrthdrawiadau yn achosi anafiadau personol yn gysylltiedig â'r gyffordd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

**11. Mwynderau**
*Gardd gymunedol – diweddariad*
Deallwyd bod un o'r trigolion sydd â diddordeb yn cysylltu â Tai Ceredigion ynglŷn â chychwyn gardd gymunedol ar ystâd Maesyderi.

*Diffib – batri newydd ac ati. Larwm.*
Roedd y batri newydd a'r padiau wedi'u gosod ar y diffib. Roedd y larwm wedi ei anablu.

*Llwybr tarmac*
Dim gwaith trwsio wedi'i wneud hyd yma.

*Carthion yn gollwng*
Roedd y carthion a oedd wedi sarnu yn y cae chwarae wedi golygu bod yr ardal ar gau nes daw rhybudd pellach. Bydd archwilwyr Iechyd Amgylchedd CSC yn ymweld â'r safle i sicrhau ei fod yn addas i gael ei ailagor ar ôl cael gwybod gan y CC pan fyddai'r carthion i gyd wedi clirio oddi ar y borfa. Roedd yr wynebau caled wedi'u glanhau gan Dŵr Cymru.

*Bin*
Roedd y Cyng K Symmons wedi derbyn y bin newydd ac yn ei storio ar gyfer y cae chwarae. Diolchwyd iddo am hynny. Byddai'r Cyngor yn trefnu ei osod.

**12. Prosiectau'n Parhau**
Dim.

**13. Digwyddiadau**
*Arolwg o Wasanaeth Sul y Cofio*
Er newid y lleoliad ar y funud olaf, roedd nifer dda wedi dod i'r gwasanaeth a byddai'r Parch. A Kent yn cael diolch am gymryd y gwasanaeth.
GWEITHREDU: Llythyr diolch GAN: Y Clerc

*Arolwg o gynnau'r goleuadau*
Oherwydd y tywydd gwlyb iawn, roedd y canu carolau wedi digwydd yn neuadd yr ysgol. Gofynnwyd a ellid plannu coeden Nadolig iawn ar y llain borfa gan nad oedd y goeden bresennol yn hollol addas.
GWEITHREDU: Cysylltu â Tai Ceredigion GAN: Y Clerc

*Sgwrs OPD gan Ms J Davidson, 10.01.19*
Nodwyd.

**14. Adroddiadau cyfarfodydd**
Dim.

**15. Gohebiaeth / + gohebiaeth e-bost**

**16. Cyfnewid gwybodaeth**
Gofynnwyd a allai'r banciau poteli gael eu gwacau'n amlach dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: |Y Clerc

Byddid yn gofyn i CSC a allai'r bin yn nhu blaen y parc ceir wrth ymyl Neuadd y Cwrwgl gael ei wacau'n amlach gan ei fod yn aml yn orlawn.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

Gofynnwyd pwy oedd biau'r cysgodfannau bws roedd y CC yn eu glanhau. Cytunwyd yn gyffredinol fod y bloc cysgodfannau bws yn eiddo i'r CC ond efallai nad oedd y gweddill.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r Cyngor Sir i weld pwy biau'r cysgodfannau bws GAN: Y Clerc

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 07.01.19**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.03pm*